



**Adroddiad Grŵp Trawsbleidiol
Addysg Bellach a Sgiliau y Senedd**

Haf 2024

Adroddiad Grŵp Trawsbleidiol Addysg Bellach a Sgiliau'r Senedd

Haf 2024

Sefydlwyd Grŵp Trawsbleidiol (CPG) y Senedd ar gyfer Addysg Bellach a Sgiliau ym mis Mai 2017 gan Colegau Cymru, dan gadeiryddiaeth John Griffiths AS. Mae'r grŵp yn dod ag Aelodau Seneddol o bob rhan o'r sbectrwm gwleidyddol, rhanddeiliaid o'r sector addysg bellach, a phartïon a busnesau ehangach sydd â diddordeb ynghyd, i drafod a hyrwyddo budd cyhoeddus addysg bellach yng Nghymru. Mae'r adroddiad hwn yn nodi effaith gwaith y grŵp yn 2023/24, ac yn edrych ymlaen at y dyfodol.

Datganiad Effaith

Yn 2023/24, cynhaliodd y Grŵp Trawsbleidiol ei gyfarfod cyntaf ar y cyd â'r Grŵp Trawsbleidiol ar gyfer Prifysgolion. Y cyfarfod hwn oedd y cyntaf o'i fath ac roedd yn foment bwysig yn ein taith tuag at sector trydyddol cyn lansio Medr ar 1 Awst 2024. Daeth llawer o Aelodau'r Senedd a rhanddeiliaid ehangach i'r cyfarfod ar y cyd, a chafwyd consensws y dylai'r grŵp ailedrych ar yr argymhellion yn yr [adroddiad Pontio i Fyd Gwaith](#), a gyhoeddwyd gan Dr Hefin David AS, wrth inni drosglwyddo i Medr. Roedd y cyfarfod hwn yn dangos yr ymrwymiad i gydweithio ar draws y sectorau addysg uwch ac addysg bellach. Awgrymwyd y dylai'r Grwpiau Trawsbleidiol ar gyfer Addysg Bellach a Sgiliau ac ar gyfer Prifysgolion barhau â'r ddeialog ar yr adroddiad hwn a chyfarfod eto gyda gwahoddiad wedi'i estyn i Ysgrifennydd Cabinet Llywodraeth Cymru dros Addysg. Mae Colegau Cymru yn ymgysylltu'n rhagweithiol â'r sector Addysg Uwch yn ystod y cyfnod pontio i Medr i sicrhau bod buddiannau i ddysgwyr yn cael eu blaenoriaethu.

Ym mis Ebrill 2024, lansiodd Colegau Cymru adroddiad [Dangos Gwerth Cymdeithasol Colegau Addysg Bellach yng Nghymru](#) yn ystod y cyfarfod Grŵp Trawsbleidiol gyda phresenoldeb a chyfraniad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, Lynne Neagle AS. Roedd y cyfranwyr yn cynnwys Guy Lacey, Cyn Prif Weithredwr a Phennaeth Coleg Gwent a Chadeirydd Colegau Cymru, a Dr Sarah Evans, Cyfarwyddwr Twf Busnes ac Ymgynghoriaeth Cwmpas a arweiniodd yr ymchwil. Roeddem yn falch o groesawu Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg a oedd newydd ei phenodi, gan sicrhau bod y swyddfa uchaf yn deall gwerth cymdeithasol y sector addysg bellach yn dda. Ychydig wythnosau'n ddiweddarach, [cyfeiriodd Ysgrifennydd y Cabinet at yr adroddiad](#) yn ystod trafodion y Cyfarfod Llawn yn y Senedd, gan dynnu sylw at ei chefnogaeth i'r gwaith a wneir gan Colegau Cymru.

Aelodau presennol y Grŵp Trawsbleidiol

- John Griffiths AS (Cadeirydd) (Llafur Cymru)
- Luke Fletcher AS (Plaid Cymru)
- Mike Hedges AS (Llafur Cymru)
- Vikki Howells AS (Llafur Cymru)
- Samuel Kurtz AS (Ceidwadwyr Cymreig)

Gair gan John Griffiths AS, Cadeirydd

Mae ColegauCymru wrth ei fodd bod John Griffiths AS yn parhau i gefnogi nid yn unig gwaith y sector addysg bellach yng Nghymru, ond hefyd gwaith y Grŵp Trawsbleidiol ar gyfer Addysg Bellach a Sgiliau. Dyma ei farn ar waith y grŵp hyd yn hyn:

“Mae’r grŵp trawsbleidiol wedi bod yn llwyfan pwysig i gysylltu gwleidyddion yn well â’r rhai sy’n gweithio mewn addysg bellach ledled Cymru. Gwyddom yn hanesyddol fod hwn yn sector, o gymharu ag Addysg Uwch, nad yw bob amser wedi cael y cymorth sydd ei angen arno. Ar ôl elwa ar addysg bellach fy hun yng Nghasnewydd, rwy’n gwerthfawrogi ac yn cydnabod y cyfleoedd y gall ei rhoi i unigolyn am ail gyfle mewn bywyd.

“Dros y 12 mis diwethaf, rwyf wedi bod yn falch iawn o gadeirio’r Grŵp Trawsbleidiol ar gyfer Addysg Bellach a Sgiliau a gweithio gyda thîm ColegauCymru. Rydym wedi ac yn parhau i archwilio materion megis gwerth cymdeithasol addysg bellach, cydweithio â’n prifysgolion a thrafod yr heriau ariannu a pholisi sy’n wynebu’r sector.”

Gair gan Prif Weithredwr ColegauCymru, David Hagednyk

“Dros y saith mlynedd diwethaf, mae’r Grŵp Trawsbleidiol ar gyfer Addysg Bellach a Sgiliau wedi cynnig cyfle i’r sector a’n partneriaid ehangach gyfarfod a thrafod materion sy’n wynebu’r sector, tra hefyd yn dathlu ein llwyddiannau gyda chyfraniadau gan Aelodau’r Senedd a Gweinidogion y Llywodraeth. Mae tîm ColegauCymru a minnau’n edrych ymlaen at adeiladu ar lwyddiant y Grŵp Trawsbleidiol dros y flwyddyn academaidd nesaf, a fydd yn gyfnod o newid sylweddol i’r sector trydyddol wrth i ni drosglwyddo i Medr.

Hoffwn achub ar y cyfle hwn i ddiolch i’n Cadeirydd, John Griffiths AS, am ei waith gyda’r Grŵp dros y saith mlynedd diwethaf. Mae’n galonogol gwybod bod gennym gefnogaeth barhaus o’r fath gan Aelod o’r Senedd sydd wedi bod trwy addysg addysg bellach yn uniongyrchol ac sy’n deall y manteision y mae’n eu darparu i ddysgwyr a’u bywydau.”

Edrych ymlaen at 2024/25

Mae heriau amrywiol i'r sector addysg bellach wrth inni edrych ymlaen at y flwyddyn academaidd newydd. Mae cyllid cynaliadwy wedi a bydd yn parhau i fod yn faes sy'n peri pryder i golegau, ac felly rhaid inni barhau i bwysleisio'r gwerth y mae addysg bellach yn ei roi i Gymru. Mae'r gwerth hwn nid yn unig yn ariannol, ond hefyd i'n dysgwyr a'n cymunedau fel y dangosir yn ein hadroddiad gwerth cymdeithasol.

Bydd y trawsnewid i Medr yn dod â heriau a chyfleoedd i'r sector. Mae Colegau Cymru yn gweithio'n rhagweithiol gyda Medr a Llywodraeth Cymru i sicrhau trosglwyddiad llyfn ac effeithlon i'r holl sefydliadau dan sylw. Rhaid inni sicrhau bod Medr yn rhoi dysgwyr wrth galon sector ôl-16 diwygiedig.

Ochr yn ochr â'r heriau hyn bydd pwysigrwydd diwygiadau i addysg a hyfforddiant galwedigaethol fel bod mwy o bobl ifanc ac oedolion yn gallu cyrchu'r llwybrau pwysig hyn.

Mae'r Grŵp Trawsbleidiol yn fecanwaith gwerthfawr i Colegau Cymru amlygu'r ddau faes ar gyfer dathlu yn ogystal â datblygu.

Pynciau cyfarfod posibl yn y dyfodol

1. Medr – y cyfnod pontio a thu hwnt

Bydd y Grŵp Trawsbleidiol yn rhoi cyfle i wahodd uwch gynrychiolwyr Medr i drafod sut mae sefydlu Medr yn datblygu. Gallai hyn hefyd fod yn gyfle i gynnal cyfarfod pellach ar y cyd â Grŵp Trawsbleidiol Prifysgolion, gan amlygu ein parodrwydd i gydweithio â lleoliadau addysg eraill wrth i ni weithio ein ffordd drwy'r trawsnewid i Medr.

2. Sgiliau peirianeg - cyfarfod ar y cyd â'r Grŵp Trawsbleidiol Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg, Mathemateg a Meddygaeth (STEMM).

Mae trafodaethau ar y gweill gydag Ysgrifenyddiaeth y Grŵp Trawsbleidiol STEMM i archwilio cyfarfod ar y cyd yn y dyfodol yn canolbwyntio ar sgiliau peirianeg a chyfraniad colegau at arloesi yn y sector hwn. Byddai hyn yn rhoi cyfle i ymgysylltu â grŵp ehangach o Aelodau Seneddol nad ydynt efallai wedi cael y cyfle i ymgysylltu â'r Grŵp Trawsbleidiol Addysg Bellach a Sgiliau hyd yma.

3. WorldSkills

Mae colegau wedi bod yn ymwneud â'r amrywiol gystadlaethau sgiliau a ddatblygwyd gan y prosiect Ysbrydoli Rhagoriaeth Sgiliau yng Nghymru a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Mae WorldSkills yn cefnogi pobl ifanc ar draws y byd trwy hyfforddiant seiliedig ar gystadlaethau, asesu a meincnodi, gyda thimau cenedlaethol yr aelodau yn y pen draw yn profi eu gallu i gyrraedd safonau byd-eang yn y 'gemau Olympaidd sgiliau' a

gynhelir bob dwy flynedd. Bydd rownd derfynol WorldSkills yn cael ei chynnal yn Lyon ym mis Medi 2024, gyda chystadleuwyr yn cymryd rhan o dri choleg yng Nghymru. Byddai cyfarfod Grŵp Trawsbleidiol yn y dyfodol yn canolbwyntio ar gystadlaethau sgiliau yn caniatáu i Aelodau Seneddol glywed yn uniongyrchol gan gystadleuwyr a staff colegau am bwysigrwydd cystadleuaethau sgiliau wrth godi proffil sgiliau yng Nghymru.

4. Llwybrau 14-19

Mae hwn yn faes y mae'r Grŵp Trawsbleidiol yn awyddus i'w archwilio ymhellach. Mae Colegau Cymru yn credu bod yn rhaid i lwybr dysgu a phontio 14-19 newydd fod yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru. Rhaid i lwybr 14-19 newydd gynnwys mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ym Mlynnyddoedd 10 ac 11 allu cael mynediad at addysg alwedigaethol yn y coleg, lle byddant yn cael addysg gan y rhai sydd â gwybodaeth am y diwydiant mewn lleoliad sydd â'r adnoddau a'r offer cywir ar gael iddynt. Gallai hyn fod yn gyfle i'r sector bwysleisio y dylai pob dysgwr oedran ysgol gael yr hawl i glywed yn uniongyrchol gan golegau am yr opsiwn o astudio mewn addysg bellach a dysgu seiliedig ar waith. Byddai'r drafodaeth hon yn tynnu ar ganfyddiadau'r Pontio i Gyflogaeth, a gellid gwahodd pobl ifanc sydd wedi cychwyn ar lwybrau galwedigaethol yn ifanc ac sydd wedi cael llwyddiant yn eu teithiau addysg/cyflogaeth.

Cylch Gorchwyl Grŵp Trawsbleidiol – gosodwyd yn 2017

- Trafod ac archwilio cyfleoedd posibl ar gyfer tirwedd sgiliau Cymru yn y dyfodol.
- Hyrwyddo dealltwriaeth ymhlith Aelodau'r Senedd a rhanddeiliaid perthnasol eraill am y materion sy'n wynebu addysg bellach a sgiliau yn y dyfodol yng Nghymru.
- Rhoi cyngor a chymorth i Aelodau'r Senedd ar faterion allweddol sy'n ymwneud â gweithgarwch addysg bellach.
- I ddangos tystiolaeth o bwysigrwydd addysg fel rhan hanfodol o adeiladu'r gymdeithas gynhwysol rydym i gyd am ei gweld gydag addysg bellach yn ganolog i hyn.

Gan edrych ymlaen at Gyfarfod Cyffredinol Blynnyddol 2024/25, efallai y bydd cyfle i ailedrych ar y cylch gorchwyl i sicrhau ei fod dal yn berthnasol ac yn gyraeddadwy.

Gwybodaeth Bellach

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:

Rachel Cable, **Cyfarwyddwr Polisi a Materion Cyhoeddus**

Rachel.Cable@ColegauCymru.ac.uk



www.colegau.cymru



helo@colegaucymru.ac.uk



029 2052 2500



Colegau Cymru